



O'r fesen fach i'r gangen uchaf, anelwn am ragoriaeth

CROESO I YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLECHRYD

ABERTEIFI
CEREDIGION
SA43 2NL

01239 682474

e.bost: prif@llechryd.ceredigion.sch.uk



Annwyl Riant/Warcheidwad,

Croeso i Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd. Wrth gyflwyno'r llyfryn 'Llawlyfr yr Ysgol' i chi, estynnwn groeso i'ch plentyn fel disgybl yn yr ysgol. Gyda'ch cydweithrediad chi, gobeithiwn yn fawr y bydd arhosiad eich plentyn gyda ni yn un hapus, ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol dros y blynyddoedd. Ceir manylion yma am nifer o bethau sydd o bwys os yw'r ysgol yn mynd i redeg yn effeithiol a'ch plentyn yn mynd i ymgartrefu yma'n hawdd, ac mae'n bwysig eich bod yn eu darllen yn ofalus.

Dylwn nodi'n eglur mai partneriaeth yw addysg; partneriaeth agos rhyngom ni yma a chwithau'r rhieni yn y cartref. Mae eich rhan chi'n eithriadol o bwysig os yw eich plentyn am gael y gorau o fod yn yr ysgol. Ceisiwch roi amser bob dydd i holi ynglyn â'r gwaith a wnaed yn yr ysgol. Gadewch iddo/iddi ddweud wrthyhych beth a ddigwyddodd yn ystod y dydd, a beth a wnaed ganddo/ganddi. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw eich cefnogaeth chi yn y cartref os yw eich plentyn yn mynd i gael yr addysg orau.

Cofiwch bod croeso i chi gysylltu â'r ysgol unrhyw amser os oes ganddoch unrhyw gwestiwn neu bryder am ddatblygiad eich plentyn.

Yn ddiffuant,

**Miss M Lewis
Pennaeth**

Paratowyd y llyfryn hwn er mwyn rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi am yr ysgol ac i ateb rhai o'r cwestiynau a fydd yn codi o bryd i'w gilydd.

Sail ymddiriedaeth mewn unrhyw ysgol yw gwybod a deall yr hyn sy'n digwydd ynddi. Yr ydym yn gobeithio y gwnewch chi ehangu'r wybodaeth honno drwy gysylltu â ni, fel y gallwn fanteisio ar gyfnodau o ymgynghori a thrwy hynny rannu'r cyfrifoldeb o gynnig y gorau er lles y plant.

Credwn mai trwy ymdrech y gwireddir pob llwyddiant ac ymrwymwn i gefnogi pob disgybl i gyflawni ei botensial/ei photensial.

Mae'r wybodaeth sydd yn y llyfryn yn gywir adeg ei gyhoeddi, ond efallai y bydd newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at gydweithio yn hapus a llwyddiannus â chi pan ddaw eich plentyn i'r ysgol.



DATGANIAD O FWRIAD

Ein ffocws heddiw yw i greu amgylchedd dysgu hapus, diogel ac ysgogol lle gall pob aelod o gymuned yr Ysgol magu hyder ac i ddatblygu eu llawn botensial.

Ein gweledigaeth yw i greu awyrgylch dysgu ac addysgu hapus, diogel a symbylus sydd yn darparu ar gyfer anghenion ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol pob plenty, trwy hybu ddisgwyliadau uchel trwy'r Ysgol. Anelwn at sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial a fynnu o fewn diwylliant Ysgol ddwyieithog llawn gofal, digidol a chefnogol.

STAFF YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLECHRYD

DOSBARTHIAD:

Ysgol Gynradd Gymunedol

DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol Gynradd Gymunedol yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.

Ysgol Categori A

PENNAETH:

Miss M Lewis (Bed hons MA NPQH)

**CADEIRYDD Y
LLYWODRAETHWYR:**

Cynghorydd Bryan Rees

**IS-GADEIRYDD Y
LLYWODRAETHWYR:**

Mr James Whittall

LLYWODRAETHWYR:

Mr Bryan Rees	Cynrychiolydd Cyngor
Miss Meinir Lewis	Pennaeth
Mrs Carys Lloyd Jones	Cynrychiolydd staff
Cyng. Clive Davies	Cynrychiolydd Cyngor Cymuned
Mr J Whittall	Aelod cyfetholedig
Mrs Melanie Williams	Aelod cyfetholedig
Mrs Sue Pinnington	Cynrychiolydd Rhieni
	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs Nicky Redmond	Aelod Cyfetholedig

ATHRAWON:

Mrs Carys Lloyd-Jones (BA, PGCE) /
Mrs Claire Jones (BSc hons, PGCE)

**GWEITHIWR CYNNAL
DISGYBL**

Miss Adele Watkins Mrs Gemma Hands

**CYNORTHWYDD
CYNNAL DYSGU**

Mrs Gaynor Curran Miss Helen Hughes

GOFALWRAIG:

Mrs Louise Spencer

**GORUCHWYLLWYR
CLWB BRECWAST:**

Ms Sheila Driscoll

CLERC ARIAN CINIO:

Mrs Nicola Redmond

COGYDDES:

Mrs Lillian Griffiths

NODAU AC AMCANION

1. I sicrhau bod ein dysgwyr yn uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
2. I sicrhau bod ein dysgwyr yn gyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
3. I sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.
4. I sicrhau bod ein dysgwyr yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
5. I gynnig Addysg ddwyieithog fydd yn galluogi pob plentyn i gyrraedd hyfredded cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.
6. I sicrhau bod pawb yn gweithio at alluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial yn y Sgiliau Sylfaenol, sef Llythrennedd, Rhifedd, TGCh a sgiliau meddwl.
7. I alluogi pob unigolyn i ddod yn hyderus ac yn annibynnol yn ei ddysgu.
8. I annog y plant i ddangos ystyriaeth a pharch tuag at ei eiddo ac at eraill.
9. I annog y plant i ddangos balchder yn eu Gwaith a'u hymddygiad ac i geisio am ragoriaeth yn ôl eu dawn ac aeddfedrwydd.
10. I ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gyfrwng yn addysgol ac yn gymdeithasol.
11. I alluogi pob plenty i ddatblygu ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun ac ar yr un pryd hyrwyddo ei ddealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a'u parchu.
12. I gael awyrgylch agored gloss y'n cynnwys rhieni, y gymuned a'n holl randaliad.

CYTUNDEB CARTREF YSGOL.

Mae gan yr ysgol Gytundeb Cartref Ysgol sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni/gwarcheidwad i gefnogi'r ysgol ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni / gwarcheidwad a disgyblion.

CYNLLUN MYNEDIAD

Os yw disgybl yn dymuno mynychu'r ysgol, byddwn yn cysylltu â'r Awdurdod Addysg Leol am gynqor gan yr adran berthnasol er mwyn i ni allu darparu'r ddarpariaeth fwyaf addas posib.

Mae'r llywodraethwyr wedi mabwysiadu cynllun mynediad a gellir gwneud cais i'w weld yn yr ysgol.

DIOGELWCH DISGYBLION, STAFF A SAFLE'R YSGOL

Gwerthfawrogir presenoldeb prydlon ar ddechrau pob sesiwn a dylai rhieni drefnu i nôl eu plant yn brydlon ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Cenir y gloch ysgol am 9:00y.b. a dylai'r rhieni adael safle'r ysgol ar glywed y gloch. Mae athro/athrawes ar ddyletswydd iard o 8:50y.b. tan 9:00y.b. Ni chaniateir i'r disgyblion adael safle'r ysgol yn ystod y diwrnod oni bai fod caniatâd wedi ei roi yn dilyn cais gan y rhieni.

Ni cheir mynediad i'r ysgol yn ystod oriau dysgu ond drwy ganu'r gloch, ac fe atebir gan aelod o staff. Mae angen i holl ymwelwyr i'r ysgol arwyddo mewn llyfr ar gael yn fynedfa'r ysgol. Mae giât y brif fynedfa ar gau yn ystod oriau ysgol. Ceir ymarferion tân yn dymhorol.

Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff, yna gofynnir iddynt adael safle'r ysgol ar unwaith a chysylltir â'r Heddlu pan fo hynny'n briodol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen ei'r a'r plentyn i Adran Ddamweiniau yr Ysbyty.

BETH SY'N CAEL EI ADDYSGU I'CH PLENTYN?

Ar y cyfan, cynllunnir i ddarparu sylfaen gadarn mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth ac i roi cyfle i bob plentyn 4 i 11 oed gyflawni ei orau o fewn cwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd eich plentyn yn dilyn y Cwricwlwm drwy ddau Gyfnod Allweddol yn ystod ei flynyddoedd/blynyddoedd yn Ysgol Llechryd:

Cyfnod Sylfaen: 4 i 7 oed

Cyfnod Allweddol 2: 7 i 11 oed

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y pynciau canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes, Daeryddiaeth, Cerddoriaeth, Celf ac Addysg Gorfforol.

Cyflwynir iaith dramor fodern o 9 oed ymlaen ac mae'r ysgol yn darparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol i bawb. Yn ogystal, mae'n rhaid i blant astudio Addysg Grefyddol yn ôl y maes llafur a bennir gan yr Awdurdod Lleol.

Mae gan bob ysgol ddogfennau sy'n nodi gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur lleol ar gyfer Addysg Grefyddol. Mae'r ysgol yn penderfynu ar ei chwricwlwm ei hun gan roi ystyriaeth i'r gofynion hyn ac yn trefnu ei hamserlen ei hun. Mae'r athrawon yn llunio cynlluniau gwersi ac yn penderfynu pa werslyfrau a pha ddeunyddiau addysgu eraill i'w defnyddio. Yr ysgol sy'n sicrhau bod

cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol. Mae'r dogfennau i'w gael yn yr ystafell athrawon.

Rydym yn darparu cwricwlwm i'n disgyblion sy'n ceisio addysgu'r 'person cyfan' yn ogystal ag addysgu mewn ffyrdd arbennig ac ymarferol. Ymdrechwn i sicrhau bod ein cwricwlwm yn briodol i anghenion y disgyblion gan ddefnyddio dulliau addysgu sy'n datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, deall cysyniadau a meithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae angen addysg o'r fath ar y disgyblion er mwyn iddynt lwyddo mewn cymdeithas ac economi sy'n newid yn gyflym.

Prif adnoddau ein hysgol yw ein hathrawon a'u gallu i greu a chynnal perthynas hapus â phlant yr ysgol. Mae gan yr ysgol athrawon sy'n rhoi pwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng athro/athrawes a disgybl er mwyn hyrwyddo datblygiad academaidd a phersonol y plentyn. Credwn mai'r athro/athrawes sy'n llwyddo yw'r athro/athrawes a ddaw i adnabod ei (d)disgyblion fel unigolion, sy'n ymwybodol o'u bywydau y tu allan i'r ysgol ac sy'n barod bob amser i barchu a rhoi bri ar eu profiadau a'u hymdrechion i ddygymod â nhw. Bydd yn awyddus i hyrwyddo'u bwriadau fel unigolion.

CYFNOD SYLFAEN/CYFNOD ALLWEDDOL 1 (4 - 7 mlwydd oed)

Yn y cyfnod hwn, gosodir prif sylfeini'r profiadau dysgu. Y pwyslais fydd ar ddatblygu'r sgiliau hanfodol, sef cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Drwy ddarparu cwricwlwm cyfoethog eang gan ddefnyddio ymagwedd integredig, anelwn ar ddatblygu diddordebau'r plant wrth gydnabod hefyd lefel eu haeddfedrwydd. Mae'r blynyddoedd hyn yn bwysig, pan fydd plant yn dysgu sut i arsylwi, gwranddo, ymateb a datblygu nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel aelodau gofalgwr o'n cymuned.

YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 2 (7 - 11 mlwydd oed)

Bydd sgiliau hanfodol megis cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n cwricwlwm. Ond, wrth i ddealltwriaeth o'r disgyblaethau gwahanol wella, caiff mwy o amser ei roi i wyddoniaeth a'r pynciau sylfaenol eraill. Bydd y cwricwlwm yn parhau i gael ei gynnal o fewn thema integredig lle y bo hynny'n ystyrlon ac yn berthnasol.

Caiff plant eu hannog i ddatblygu hunanhyder, annibyniaeth wrth ddysgu a sgiliau uwch mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

SGILIAU SYLFAENOL – LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

Nòd yr ysgol yn y Sgiliau Sylfaenol yw cael y plentyn i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg a defnyddio Mathemateg ar lefel angenrheidiol i weithredu a gwneud cynnydd yn y gwaith ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Hefyd rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio technoleg fodern yn y byd sydd ohoni. Mae nifer o gyfrifiaduron ym mhob dosbarth i sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r peiriannau fel arf ar draws y cwricwlwm ac i ddatblygu sgiliau cyfrifiadurol. Fe gyflwynir y cwricwlwm drwy'r dull trawsgwricwlaidd lle mae pob dosbarth yn dilyn thema benodol yn dymhorol. Treulir gwersi penodol yn dysgu'r pynciau yn ogystal â'n drawsgwricwlaidd.

Y CYFNOD SYLFAEN

Mae'r Cyfnod Sylfaen i blant rhwng 4 - 7 mlwydd oed sef plant Dosbarth 1 i gyd. Bydd hyn yn creu un cyfnod o addysgu plant, un cwricwlwm ac un dull o ddysgu.

Y CWRICWLWM

Bydd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys 7 maes dysgu, sef:

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol.
2. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
3. Datblygiad Mathemategol.
4. Dwyieithrwydd a Dealltwriaeth Aml ddiwylliant.
5. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
6. Datblygiad Corfforol.
7. Datblygiad Creadigol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu'r plant yn y meysydd canlynol:

- Sgiliau dealltwriaeth.
- Lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan.
- Agwedd gadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am barhau a'u haddysg am gyfnodau hirach.
- Hunan barch a hunan hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill.
- Arsylwi a sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolion. Gyda ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau.
- Gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth a dysgu am gadwraeth a chynladwyedd.

GWAITH YMARFEROL

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad o lygad y ffynnon trwy chwarae a chyfrannu'n ymarferol at weithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau. Er enghraifft, dylai mathemateg fod yn fwy ymarferol er mwyn i blant weld sut mae problemau'n cael eu datrys a pha mor bwysig yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddeall sut mae pethau'n gweithio a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.

DWYIEITHRWYDD AC AML DDIWYLLIANT

Bydd pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando plant a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu darllen ac ysgrifennu. Mae'n hanfodol bod plant ifanc yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith yn eu gweithgareddau bob

dydd. Bydd bod yn ddwyieithog yn cynorthwyo'r plant i feddwl mewn ffordd greadigol a hyblyg ac yn cynyddu eu dealltwriaeth ddiwylliannol. Dylai hyn hefyd eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu ieithoedd eraill.

Mae Cymru bellach yn gymuned amlddiwylliannol. Mae'n hanfodol felly i blant ifanc ddysgu am y gwahanol ddiwylliannau ac i barchu a dathlu'r amrywiaeth o draddodiadau o ran hil, diwylliant a chrefydd. Dylai hyn helpu plant i ddeall sut mae natur amlddiwylliannol y gymdeithas yn dylanwadu ar eu bywydau bob dydd.

GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Mae pwyslais mawr ar ddefnyddio'r awyr agored fel ystafell ddosbarth arall lle gall y plant weithio'n ddyddiol. Mae llawer o resymau dros annog plant i ddefnyddio'r awyr agored, er enghraifft:

- Mae iechyd a ffitrwydd plant yn elwa o redeg, neidio a sgipio y tu allan ac wrth ddefnyddio teganau chylfarpar na ellir eu defnyddio y tu mewn.
- Gall plant gael profiad uniongyrchol o natur - sut mae'r tywydd yn newid a sut mae planhigion ac anifeiliaid yn ymateb i'r gwahanol dymhorau.
- Gellir dysgu sut i ddatrys problemau trwy ddefnyddio profiadau real. Gallant ddod i hoffi natur a gweithgareddau awyr agored.

SUT MAE CYNNYDD EICH PLENTYN YN CAEL EI ASESU?

Mae athrawon yn asesu gwaith plant o ddydd i ddydd, ym mhob pwnc a gweithgaredd. Yn benodol, mae gofyn iddynt asesu a chofnodi cynnydd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Gan gymryd i ystyriaeth gwaith dosbarth a gwaith cartref, bydd yr athro neu'r athrawes yn edrych ar sut mae'r plentyn yn dod ymlaen yn y gwahanol rannau o'r pwnc; yn penderfynu pa lefel ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad ym mhob un, a bydd yn defnyddio'r rhain i gyrraedd lefel ar gyfer y pwnc cyfan.

Trefn Asesu

Mae adroddiadau yn cael eu dosbarthu i'r rhieni ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol. Fe gedwir ffeiliau asesu ar gyfer pob plentyn lle cofnodir eu cynnydd yn barhaol. Fe fydd plant Blwyddyn 2 a 6 yn cael eu hasesu yn flynyddol gan yr athrawes ddosbarth gan fod hynny'n statudol.

Mae'r ysgol hon yn ymfalchïo yn ymdrechion y plant a'r staff i sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial personol ei hun erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2.

Asesu ar gyfer dysgu

Bydd y plant yn cael cyfle i asesu gwaith eu hunain a gwaith eu ffrindiau, gan wneud penderfyniadau ar sut i ddatblygu ymhellach. Maen nhw'n hoffi'r broses

hon achos mae'n rhoi cyfle iddynt i adlewyrchu a thrafod y ffordd ymlaen. Mae'n gwneud synnwyr iddynt.

ADDYSG RYW



Dylid ystyried Addysg Ryw yng nghyd-destun Addysg lechyd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gwyddoniaeth yn hytrach na fel pwnc ar ei ben ei hun. Nid yw Addysg Ryw yn gyfyngedig i Ryw. Felly ceir ei gynnwys yn rhan o raglen bolisi ysgol gyfan ar Addysg lechyd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a Gwyddoniaeth. Mae Addysg Ryw yn broses barhaol o blentyndod i fywyd oedolyn. Dylai fod ar gael i bob disgybl gwaeth beth fo'u gallu, rhyw, anawsterau corfforol neu emosiynol, i'w baratoi'n ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn.

Amcanwn i:

1. ddarparu rhaglen addysg ryw a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, ymenyddol a chorfforol.
2. gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion.
3. gynorthwyo plant i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a fydd yn eu caniatáu i chwarae rhan gyflawn, hapus a bywiog yn y gymuned.
4. ddarparu rhaglen a fydd yn cynorthwyo plant i fwynhau perthynas sy'n seiliedig ar barch o'r ddwy ochr, a chyfrifoldeb, ac a fydd yn eu hannog i fynegi eu rhywoliaeth mewn modd positif a bod yn rhydd o unrhyw amarch.

Ein prif amcanion yw:

- a) i greu rhaglen ar gyfer dysg ddilyniannol a gwahaniaethol sydd yn paratoi ar gyfer anghenion disgyblion ac sy'n sensitif tuag at unigolion a grwpiau.
- b) i ddatblygu sgiliau mewn perthynas personol e.e. cyfathrebiad, pendantsrwydd.
- c) i ddatblygu sgiliau er mwn gwneud penderfyniadau a datrys problemau ac i gynorthwyo disgyblion i gadarnhau eu hawliau i wrthod unrhyw gyffyrddiad neu sylw annaturiol a thrafod materion o'r fath.

- ch) i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol o berygl a diogelwch a'r sgiliau i ddiogelu eu hunain.
- d) i fod yn ymwybodol o ffynonellau cymorth a meithrin y sgiliau a'r hyder i'w defnyddio.

Pan fo rhieni yn pryderu am addysg ryw, fe allent dynnu eu plentyn allan o unrhyw ran o'r rhaglen nad yw'n ffurfio rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

ADDYSG GORFFOROL



Amcanwn at ddatblygu cymhwyster corfforol yn y plant a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol a hyder, dealltwriaeth ac mewn modd gofalus.

Amcanwn at ddatblygu dealltwriaeth artistig ac esthetig drwy brofi gwahanol fathau o symud.

Amcanwn at ddatblygu hunan-barch a pharch tuag at eraill a'r gallu i ymdopi â llwyddiant a methiant o fewn gwahanol weithgareddau.

Amcanwn at hybu diddordeb mewn ac ymdeimlad o'r pwysigrwydd o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol tu fewn a thu fas yr ysgol a drwy gydol eu bywydau.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, ceir chwe maes gweithgaredd sef:

Gemau, Gweithgareddau Gymnasteg, Dawns, Nofio,

Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur, Gweithgareddau Athletaidd.

Oherwydd agosrwydd y Pwll Nofio mae'r disgyblion yn derbyn gwersi nofio yn wythnosol.

Yng nghyfnod allweddol 1 ceir tri maes gweithgaredd sef gemau, gweithgareddau gymnastig a dawns.

Gofynnir i rieni i anfon nodyn os ydynt am i'r plant gael eu hesgusodi o wers addysg gorfforol/nofio am ryw reswm.

GWEITHGAREDDAU ADDYSG GORFFOROL

Ymgwymerir ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn lle y bydd plant yn cynrychioli'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys Nofio, Rygbi, Criced, Pêl-rwyd, Tennis byr, Rownders, Gymnasteg, Athletau a Rhedeg traws gwlad.

Mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn cynrychioli'r ysgol a chydabyddir hyn fel braint sy'n gyfartal â chyflwyniad academiaidd ac artistig. Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyd-dynnu ac yn datblygu sgiliau. Rydym yn anelu at roi cyfle i blant o bob gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol.

ADDYSG GREFYDDOL



Yn ôl Deddf Diwygio Addysg 1988, rhaid darparu addysg grefyddol i bob plentyn ar wahân i blant y dymuna'u rhieni eu cadw allan o wersi addysg grefyddol. Rhaid i'r addysg grefyddol a ddarperir fod yn unol â maes llafur y cytunwyd arno yn lleol a rhaid i'r maes llafur adlewyrchu'r ffaith fod traddodiadau crefyddol y wlad yn Gristnogol yn bennaf, wrth roi ystyriaeth i ddysgeidiaeth ac arferion prif grefyddau eraill.

Dylai Addysg Grefyddol gyfrannu at sicrhau bod y cwricwlwm a ddarperir yn eang, yn gytbwys, yn wahaniaethol ac yn berthnasol. Dylai helpu'r plentyn i:

1. ddod i adnabod ei hun yn well.
2. ddod yn ymwybodol o bobl eraill a'i berthynas a nhw mewn cymuned.
3. ddod yn raddol i weld gwerth a phwrpas mewn bywyd.
4. ddod i wybod a deall mwy am ei dreftadaeth grefyddol ac ysbrydol, gan gynnwys gwybodaeth am Gristnogaeth a chredoau eraill.
5. ddod yn gyfarwydd â'r Beibl fel y ddogfen sy'n ffynhonnell Cristnogaeth, yn arbennig bywyd a'r peryglon ynddo ac iddo.
6. ddod yn fwy ymwybodol o'r byd o'i chwmpas, o'i harddwch, ei ddirgelwch a'i ryfeddod yn ogystal â'r peryglon ynddo ac iddo.
7. ddyfnhau ei ddealltwriaeth o syniadau a chredoau personol yn ogystal â gwerthfawrogi'r elfennau crefyddol mewn cymdeithas, gan anelu at ei helpu i fyw'n gytûn ag eraill o bob credo.

Gall rhieni wneud cais i dynnu eu plentyn allan o Addysg Grefyddol yn ogystal â'r gwasanaeth boreol.

EITHRIO O ADDYSG GREFYDDOL

Fe ddysgir Addysg Grefyddol fel rhan o'r dull traws cwricwlaidd o ddysgu. Cynhelir cynulliad boreol yn ddyddiol. Gall rhieni sy'n dymuno esgusodi eu plant o wersi Addysg Grefyddol neu Wasanaeth Boreol wneud cais ysgrifenedig am hynny.

AMSER AGOR A CHAU YR YSGOL



Rhennir y diwrnod yn ddau sesiwn. Bydd sesiwn y bore yn para o 9.00 tan 12.00 o'r gloch a sesiwn y prynhawn o 1.00 tan 3.30. Y mae prydlondeb yn un o ffactorau pwysig bywyd ac er mwyn meithrin yr arferiad da hwn, disgwylir i bob plentyn fod yn yr ysgol erbyn 9.00 o'r gloch bob bore.

Byddwch yn brydlon - ond gwell hwyr na hwyrach. Ceisiwch beidio â chael y plant i aros ar yr iard yn rhy gynnar, yn enwedig ar dywydd oer a gwlyb; mae pum munud cyn i'r ysgol ddechrau yn ddigon buan.

Yr oriau a dreulir yn dysgu yn ystod wythnos arferol, gan gynnwys Addysg Grefyddol, ond heb gynnwys y cyd-addoliad dyddiol statudol, cofrestru ac amserau cinio ac egwyl eraill yw 23.5 o oriau i gyfnod allweddol 2 a 21.5 i gyfnod allweddol 1.

DIOGELWCH

Caiff pob drws allanol arall eu gau ar bob achlysur, gan atal mynediad o'r tu allan. Mae'n rhaid i bob ymwelydd ddod i mewn i adeilad yr Ysgol trwy'r drws wrth ochr yr adeilad a chanu'r gloch i gael mynediad. Caiff y drws hwn ei gloi bob amser.

DIOGELWCH ar y Rhyngrwyd

Mae disgwyl yr un safon ymddygiad wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd ag y disgwylir yn arferol yn yr ysgol.



DERBYNIADAU

Yn ôl gofynion y sir, byddwn yn derbyn plant sydd wedi cael eu pen-blwydd yn bedair oed erbyn Rhagfyr 31ain, Mawrth 31ain ac Awst 31ain. Rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Gyngor Sir Ceredigion. Bydd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg.

TREFNIADAU AR GYFER DISGYBLION DERBYN I YMWELD AG YSGOL LLECHRYD A DISGYBLION BLWYDDYN 6 I YMWELD AG YSGOL UWCHRADD ABERTEIFI/DYFFRYN TEIFI

Yn dymhorol mae `na chyfle i'r plant o`r Ysgol Feithrin i dreulio pedwar diwrnod yn nosbarth 1 er mwyn cyfarfod eu hathrawes newydd. Hefyd bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn treulio diwrnod yn Ysgol Uwchradd Aberteifi/Ysgol Dyffryn Teifi yn nhymor yr Haf. Yn nhymor yr Hydref mae disgyblion blwyddyn 5 yn treulio'r diwrnod yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ar gyfer diwrnod o chwaraeon "Twrw Tachwedd".

DOSBARTHIADAU



Mae dosbarthiadau'r ysgol wedi eu trefnu yn ôl oedran. Mae yna dri dosbarth, un yng Nghyfnod Sylfaen a dau yng Nghyfnod Allweddol 2.

TREFNIADAETH FUGEILIOL YR YSGOL

GOFALAETH GYFFREDINOL

Y mae'r cyfrifoldeb am ofalu ar ôl plant yr ysgol yn ystod oriau ysgol yn syrthio ar y Pennaeth a'r staff. Yn ystod cyfnodau gwersi, bydd y plant o dan ofal a goruchwyliaeth yr athro neu'r athrawes a fydd yn eu dysgu. Am weddill y dydd, fe fydd aelodau o staff yn goruchwyllo'r plant ar yr iard.

GWASANAETHAU CEFNOGOL

Daw'r nyrs a'r therapydd lleferydd i ymweld â'r ysgol a'r seicolegydd os fydd angen.



SALWCH A DAMWEINIAU

Os digwydd damwain i blentyn, neu os fydd plentyn yn sâl, rhoddir gwybodaeth i'r Pennaeth; fe fyddant hwy a'r athro dosbarth wedyn yn rhoi sylw a gofal i'r plentyn. Os bydd natur y salwch yn rheswm digonol i'r plentyn beidio ag aros yn yr ysgol, fe gysylltir â'r rhieni dros y ffôn ac fe wneir trefniadau i'w gyrchu adref.

Mewn achos o ddamwain, gelwir ar feddyg y teulu ac fe wneir trefniadau i drosglwyddo'r plentyn i Adran Ddamweiniau. Byddwn hefyd yn ceisio dod o hyd i rieni'r plentyn cyn gynted ag y bo modd.

Ar ffurflen dderbyniad, a lenwir gan rieni pan ddaw'r plentyn i'r ysgol am y tro cyntaf, gofynnir am rif ffôn y cartref, rhif ffôn gwaith y rhieni, enw meddyg y teulu ac am unrhyw wybodaeth ychwanegol am y plentyn a fyddai'n ddefnyddiol mewn achos o salwch neu ddamwain.

Pe ddigwyddai rhieni fod yn awyddus i'r Pennaeth ymgymryd â rhoi moddion i'w plentyn, bydd yn bosibl trefnu hynny, dim ond bod cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn cael eu hanfon i'r ysgol.

DISGYBLAETH YSGOL

Mae disgyblaeth yr ysgol yn seiliedig ar barch rhwng unigolion. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn foengar ac mewn modd trefnus bob amser. Rhaid dangos boneddigeiddrwydd a pharch tuag at bersonau ac eiddo. Mae'n angenrheidiol cael rheolau eglur er mwyn cynnal a chadw cymdeithas ddiogel, ac y mae'n rhaid i bob disgybl ufuddhau'r rheolau ar bob adeg.

Mewn achosion difrifol a chamymddwyn ac mewn sefyllfaoedd lle bo nifer o rybuddion wedi eu rhoi, fe fydd disgyblion yn cael eu gwahardd, neu mewn achosion eithafol, yn cael eu gwrthod gan yr ysgol. Gofynnir i'r rhieni ddod i'r ysgol i drafod unrhyw broblemau gyda'r Pennaeth.

BWLIAN

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol i gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi cryf yn erbyn bwlian sydd ar gael i unrhyw un a wneir cais, ac mae strategaethau yn gadarn yn eu lle i atal bwlian yn yr ysgol. Rydym yn amcanu i ddileu bwlian a sicrhau bod yr ysgol yn le diogel i'r disgyblion i gyd ar bob adeg.

Cymerwn bob cyhuddiad o fwlian yn ddifrifol a byddwn yn gwneud ymholiadau yn syth.

POLISI IAITH YR YSGOL



Mae gan yr ysgol bolisi iaith ddwyieithog a'i nod yw addysgu'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog yn eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai'r ddarpariaeth hon sicrhau bod pob plentyn yn medru cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith ac yn ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Ysgol Categori A yw Ysgol Gynradd Llechryd yn ôl Polisi iaith Ceredigion. Y Gymraeg yw iaith swyddogol ein hysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith y Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Cymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yn y cyfnodau eraill a dechreuir cyflwyno'r Saesneg rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed.

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Manteisiwn ar Ganolfan Iaith Ysgol Uwchradd Aberteifi ar gyfer plant sy'n cyrraedd yr ysgol heb wybodaeth o'r Gymraeg a hwythau dros 7 oed.

DYDDIADAU A GWYLIAU YSGOL
2015/16

Tymor	Dechrau		Diwedd	Diwrnodau Ysgol
Hydref 2015	Mercher 2 Medi 2015	Haner Tymor Llun 26 Hydref 2015 - Gwener 30 Hydref 2015	Gwener 18 Rhagfyr 2015	73
Gwanwyn 2016	Llun 4 Ionawr 2016	Hanner Tymor Llun 15 Chwefror 2016 - Gwener 19 Chwefror 2016	Iau 24 Mawrth 2016	54
Haf 2016	Mawrth 12 Ebrill 2016	Hanner Tymor Llun 30 Mai 2016 - Gwener 3 Mehefin 2016	Mercher 20 Gorffennaf 2016	66
Plws diwrnodau gosod athrawon Mawrth 1 Medi 2015 a Llun 11 Ebrill 2016				2
			Cyfanswm	195



TYWYDD GARW

Dylai rhieni gadw llygad craff ar y tywydd a chasglu eu plant os ydynt yn amau bod 'na broblem. Os yw'n ofynnol cau'r ysgol, fe fyddwn yn ceisio cysylltu â'r rhieni i gyd ac yn sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd adref yn ddiogel. Felly, mae'n hollbwysig fod rhif ffôn eich cartref a'ch gwaith gennym yn yr ysgol.

PLANT GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn addas i bob disgybl mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol trwy gynhaliath yn y dosbarth a/neu trwy eu tynnu allan ar gyfer gwaith grŵp bach neu waith unigol.

Mae Polisi ADY eisoes wedi cael ei dderbyn gan y Corff Llywodraethol ac mae hwn yn dilyn canllawiau'r Côd Ymarfer ar gyfer ADY. Gellir darllen y polisi yn yr ysgol os dymunir. Rhoddir enw pob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol ar y Cofrestr AAA. Mae'n bolisi gan yr ysgol gysylltu â rhieni unrhyw blentyn cyn iddo/iddi gael ei osod ar unrhyw gyfnod neu cyn iddo/iddi gael ei gyfeirio/chyfeirio am asesiad statudol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn Ysgol Gynradd Llechryd yn ateb gofynion Côt Ymarfer Cymru.

Darperir addysg arbennig gan Mrs Claire Jones i ateb gofynion Addysg Arbennig yn yr ysgol. Mae pob plentyn yn cymryd Profion Safonedig er mwyn adnabod unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gosodir y plant ar y cyfnodau perthnasol o'r Côt Ymarfer Addysg Arbennig ac maent yn mynd allan am gyfnodau gyda chynorthwydd. Ar yr un pryd, fe ddarperir ar gyfer plant o allu arbennig.

Prif nod y ddarpariaeth addysg arbennig yn yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial o fewn awyrgylch gynhaliol.

Caiff y plentyn yr un cyfle a phawb arall i integreiddio'n llwyr ym mywyd yr ysgol.

PLANT MWY GALLUOG a THALENTOG

Yn unol â chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, mae gan Ysgol Llechryd Gydlynnydd Plant "Mwy Galluog a Thalentog". Swyddogaeth y Cyd-Lynnydd yw trefnu adnabod y disgyblion hyn a threfnu darpariaeth bwrpasol ar eu cyfer, mewn cyd-weithrediad a'r Pennaeth, staff yr ysgol, y Corff Llywodraethol a'r rhieni.

DISGYBLION AG ANABLEDD

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn diffinio person anabl fel "rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd".

Cred yr Ysgol mewn cyfle cyfartal i bawb. Mae disgyblion ag anabledd yn cael eu hintegreiddio i ddosbarthiadau'r ysgol ac fe anogir y disgyblion i gymryd rhan

ymhob gweithgaredd allgyrsiol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod disgyblion gydag unrhyw fath o anabledd yn derbyn addysg gydradd a'u bod yn cael eu hintegreiddio'n llawn i fywyd yr Ysgol ynghyd â'u cyfoedion. Mae'r Ysgol wedi darparu rampiau i sicrhau bod cadeiriau olwyn yn cael mynediad i'r adeilad.

CYFLE CYFARTAL

Mae'r ysgol yn ymroddedig i egwyddor cyfle cyfartal i'r disgyblion a'r staff beth bynnag yw eu rhyw, eu lliw, eu cefndir ieithyddol neu eu gallu. Fel canlyniad, cydnabyddir pob disgybl fel unigolyn a rhoir cyfle i bob un gyflawni ei botensial. Mae polisi cyfle cyfartal yr ysgol yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

POLISI YNGLŶN Â CHODI A DILEU TALIADAU

Gofynnir yn garedig am gyfraniadau tuag at y gost o weithgareddau allgyrsiol fel ymweliadau addysgiadol ac ymweliadau preswyl. Nid yw'r ysgol yn gallu ariannu'r nifer fawr o weithgareddau sy'n cael eu trefnu.

GWISG YR YSGOL

Rhaid i'r holl ddisgyblion wisgo gwisg yr ysgol a rhaid parchu'r holl reolau ynglŷn â'r wisg honno. Bydd angen y canlynol ar fechgyn a merched sy'n dod i Ysgol Gynradd Llechryd.

GWISG Y BECHGYN

Trowsus llwyd, crys chwys glas a chrys polo melyn.

GWISG Y MERCHED

Sgert lwyd neu trowsus llwyd, crys chwys glas a chrys polo melyn.

Mae'r bechgyn a'r merched yn gwisgo siaced gnu glas brenhinol gyda bathodyn yr Ysgol arni. Mae bagiau swyddogol i gario'r dillad nofio ac ymarfer corff a bagiau gwaith cartref hefyd ar gael i'w brynu.

GWISG CHWARAEON - BECHGYN A MERCHED

Bydd angen dillad addas ar gyfer gwersi nofio a gwisg swyddogol ymarfer corff sy'n cynnwys daps, siorts glas tywyll a chrys T swyddogol sydd ar gael.

GWISG NOFIO - BECHGYN A MERCHED

Gwisg nofio, cap nofio a lliain sychu.

(Gwisg un darn i'r merched)

**DYLID GOSOD ENWAU'R PLANT YN GLIR AR Y DILLAD I GYD ER MWYN IDDYNT
ALLU EU HADNABOD**

CYFLE I'N CYFARFOD

Credwn fod cysylltiad rhwng cartref ac ysgol yn hollbwysig, felly, pan fydd rhieni eisiau trafod unrhyw fater ynglŷn â'u plant, dylent gysylltu â'r Pennaeth yn yr ysgol. Fe fydd hi'n medru gwneud trefniadau i gyfarfod â'r rhieni yn yr ysgol unrhyw bryd rhwng 8.30 tan 9.00 y bore a 3.30 tan 4.00 y prynhawn. Nid ar

unrhyw gyfrif y dylid cysylltu ag athrawon yn eu cartrefi. Estynnir gwahoddiad i rieni fynychu gweithgareddau yn yr ysgol h.y. Mabolgampau, Cyngerdd Nadolig a.y.b. lle mae'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, fe gynhelir Noson Rieni bob tymor lle caiff y rhieni gyfle i gyfarfod â'r athrawon dosbarth i drafod cynnydd eu plant ac ar y Noson Rieni olaf i weld gwaith y plant. Mae'r cyfarfodydd yma o fudd i rieni yn ogystal â'r athrawon. Mae'r rhieni yn derbyn adroddiadau ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol.

CYLCHLYTHYRON I RIENI



Fe ddsberthir llythyron i rieni i'w hysbysu o'r holl weithgareddau a'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'u plant.

CYFNODAU ABSENOLDEB


Yn ystod cyfnod i ffwrdd o'r ysgol fe fyddwn yn gwerthfawrogi pe byddai rhieni yn hysbysu'r ysgol o'r absenoldeb ar y diwrnod cyntaf, dros y ffôn, neu ddanfon nodyn o esboniad i'r athro ar ôl i'r plentyn ddychwelyd. Os bydd rhaid tynnu'r plentyn allan o'r ysgol am unrhyw reswm arall, byddem yn disgwyl fod y rhieni yn ein hysbysu o hynny drwy lythyr neu alwad ffôn.

Os yw'n ofynnol casglu eich plentyn o'r ysgol yn ystod oriau ysgol, rhaid gwneud hynny drwy gysylltu â'r Pennaeth. Er mwyn sicrhau diogelwch y plant, nid ydym yn caniatáu rhyddhau plentyn os na fydd ei rieni neu oedolyn cyfrifol yn ei gasglu.

CWYNION

Dylid cyfeirio cwynion i'r Pennaeth. Os nad yw'n bosibl datrys y broblem o fewn yr ysgol, yna fe ddilynir y drefn sydd gyda'r Awdurdod Addysg o ddelio a chwynion drwy gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol. Gellir ofyn am gopi o'r ddogfen berthnasol sydd ar gael yn yr ysgol.

CRONFA'R YSGOL




Y mae cronfa ariannol ar gael yn yr ysgol ac fe'i defnyddir er budd yr ysgol yn gyffredinol. Codir yr arian drwy wahanol ddulliau ac mi rydym yn ddiolchgar iawn i rieni'r ysgol am eu cefnogaeth i godi'r arian hwn. Mae mantolen ariannol yr ysgol ar gael, ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd Llywodraethol. Archwilir y fantolen ariannol yn flynyddol.

CYMDEITHAS RHieni AC ATHRAWON

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon llewyrchus iawn. Maent yn codi swm sylweddol o arian yn flynyddol tuag at gefnogi gwahanol prosiectau o fewn yr ysgol. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i'r gymdeithas hon am y gwaith ddiflino y maent yn cyflawni.

GWEITHGAREDDAU ALL-GYRSIOL



Mae gweithgareddau allgyrsiol yn bwysig i ddatblygiad yr ysgol gyfan. Rydym yn cynnig nifer helaeth o weithgareddau sydd yn codi hunan barch, ehangu gorwelion, datblygu hunan hyder a rhoi cyfle i rannu llwyddiant:

Adran yr Urdd - Cyfarfod Nos Fercher

Mae'r timau canlynol yn cymryd rhan yng Nghystadlaethau'r Cylch:

Pêl-droed; Pêl-rwyd; Rygbi; Criced; Nofio; Trawsgwlad a Chwaraeon Potes
Gwersi beicio i blant y chweched flwyddyn.

Cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau yn yr Urdd.

Tîm cwis Bobby Busters.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yng nghystadlaethau Campau'r Ddraig.

'Rydym yn cefnogi achosion dyngarol gan ddewis un elusen yn dymhorol.

YMWELIADAU ADDYSGIADOL



Mae plant yn mwynhau ymweld â llefydd ac maent yn dysgu llawer o brofiadau personol. Mae gennym raglen sylweddol o ymweliadau addysgol sy'n gysylltiedig â meysydd gwahanol o'r cwricwlwm. Trefnir nifer o ymweliadau at fusnesau a diwydiant lleol.

Trefnir ymweliad preswyl i Ganolfannau Preswyl yr Urdd yn Llangrannog a Chaerdydd.

CINIO YSGOL



Darperir cinio ysgol yn ddyddiol yng nghegin yr ysgol ac fe'i gweinyddir rhwng 12.00 ac 12.30 o'r gloch. Pris cinio yw £2.30 y dydd a chesglir cyfanswm yr arian cinio am yr wythnos ar fore Gwener rhwng 8.30 a 9.00 o'r gloch. Gellir gwneud cais am ginio di-dâl, os dymunir, mae'r ffurflenni pwrpasol i'w cael yn yr ysgol ac i'w dychwelyd wedyn i'r Swyddfa Addysg yn Aberystwyth. Arolygir y plant yn ystod y cyfnod hwn gan dwy o weinyddesau. Mae trefniadau ar gael ar gyfer y plant sy'n dymuno dod â brechdanau. Darperir cyfarpar a dŵr iddynt i'w yfed. Dylid dod â brechdanau mewn blwch plastig, ond ni ddylid cludo unrhyw fath o lestr gwydr. Awgrymir i rieni i baratoi pecyn bwyd iach.

Mae'r ysgol yn aelod o'r Rhwydwaith Ysgolion Iach ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach ac ymarfer rheolaidd.

POLISI DI-FWG



Gofynnir i bawb i barchu'r polisi hwn er mwyn gosod esiampl iach a da i'n plant. Mae holl adeiladau a thir yr ysgol wedi eu clustnodi yn fannau di-fwg, ac ni chaniateir i neb ysmegu ynddynt.

CLWB BORE

Mae'r ysgol yn darparu Clwb Bore. Cynhelir y sesiwn bore rhwng 8.20 a 8.50 y bore ac mae'r plant yn cael amser i chwarae, ddarllen, siarad ayb.

PLANT DAN OFAL

Y Pennaeth yw'r person a enwir sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad Addysgol Plant dan ofal.

AMDDIFFYN PLANT

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'n dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan drefn amddiffyn plant.

Y Pennaeth yw cydlynnydd Diogelu Plant yr ysgol. Yn absenoldeb y Pennaeth, mae aelod o staff dynodedig i gymryd y cyfrifoldeb dros Diogelu Plant sef Mrs Carys Lloyd-Jones. Mae Llywodraethwr dynodedig Cllr Bryan Rees ar gyfer amddiffyn plant ar y Bwrdd Llywodraethol.

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglyn ag esgeulustra neu gan-drin corfforol, emosiynol, neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol a Threfn Diogelu Plant yr Awdurdod, i sôn am y mater wrth Gydlynnydd Diogelu Plant yr Ysgol. Gall cydlynnydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trfodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gydlynnydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y Sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhyddiadau, ni fydd yn briodol drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

GWYBODAETH BRESENOLDEB

2016 / 2017

% absenoldebau heb ganiatâd	0%
% absenoldebau gyda chaniatâd	3.5%
% presenoldeb yn yr ysgol	96.5%

Ein Pentre Ni.

Hen bentre'r bont a'r afon
A chorwg ar ei chyrion,
Er mynd o'i blant ar draws y byd
Yn Llechryd y mae'r galon.

*Dic Jones 'yr Hendre'
Bardd Gwlad a Phrifardd*